# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Awst 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams – Cadeirydd<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS – Is-gadeirydd<br><br>Cynghorwyr R Dew, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R.Meirion Jones, Bryan Owen, P S Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Glyn Haynes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu'r Cynghorydd R A Dew ddatgan diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 o ganlyniad i'r ffaith ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr a oedd wedi cyflwyno cais hwyr ac fe adawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth am y ceisiadau hwyr. Yn dilyn penderfyniad i beidio ag ystyried y ceisiadau hwyr, bu'r Cynghorydd R A Dew gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais a ddilynodd.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2018 fel cofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A o'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**

Derbyniwyd 2 gais ar gyfer y swydd yn ogystal â 2 gais hwyr.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD y dylai 1 ymgeisydd fynd ymlaen i gam nesaf y broses benodi.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**